# Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Dyddiad:** 30 Ionawr 2002

**Amser:** 1.00pm

**Lleoliad:** Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Alan Lansdown | Pennaeth yr Is-adran Cymorth Disgyblion, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |

**Ymddiheuriadau**

Janice Gregory

Huw Lewis

**Dirprwyadau**

Dim

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| ***Yn cynrychioli Canolfan y Dechnoleg Amgen:*** | |
| Ann MacGarry | Swyddog Addysg |
| Phil Horton | Swyddog Gwybodaeth Dechnegol |
| ***Yn cynrychioli Oxfam Cymru:*** | |
| Catherine Hester | Ymgynghorydd Cwricwlwm |
| ***Yn cynrychioli'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru:*** | |
| Claire Fowler | Ymgynghorydd Polisi Addysg |
| ***Yn cynrychioli'r Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd:*** | |
| Stephen Thomas | Ysgrifennydd |
| ***Disgyblion yn cynrychioli Ysgol Bro Ddyfi:*** | |
| Rachel Aston | Martin Evans |
| ***Disgyblion yn cynrychioli Ysgol Gyfun Penweddig:*** | |
| Anthony Hammond | Cari Fflur Davies |
| ***Disgybl yn cynrychioli Ysgol Uwchradd y Drenewydd:*** | |

Kimberley Thomas

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig, aelod o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Pauline Jarman | Member of Court of Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Diolchodd y Cadeirydd i Ganolfan y Dechnoleg Amgen am groesawu cyfarfod y Pwyllgor.
2. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru i gyfarfod ym Machynlleth am 10.30am, ddydd Gwener 1 Chwefror yn y Tabernacl – yr Amgueddfa Gelfyddyd Fodern.
3. Gofynnwyd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau newydd. Nid oedd dim.

**Eitem Un: Datblygu Cynaliadwy/Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn Addysg**

***Papurau: ELL 02-02(p.1) a (p.2)***

1.1 Ymdriniodd Ann MacGarry â'r holl bwyntiau y cyfeirir atynt yn ei phapur, a rhoddodd bwys arbennig ar:

- Yr angen i ddatblygu cynaliadwy hydreiddio'r cwricwlwm;
- Yr angen i athrawon gael digon o amser ar gyfer hyfforddiant;
- Dylid gwneud y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ofyniad statudol;
- Dylid darparu cyllid i alluogi ysgolion i roi syniadau arloesol ar waith, a allai arbed adnoddau yn y tymor hir;
- Yr angen am wobrwyon sydd yn cydnabod cynlluniau arloesol gan ddisgyblion, sydd yn cynnwys thema datblygu cynaliadwy.

1.2 Rhoddodd Catherine Hester a Claire Fowler gyflwyniad 'PowerPoint' ar y cyd ac atodir copi o'r tryloywluniau, sydd yn crynhoi'r prif bwyntiau, yn Atodiad A.

1.3 Dywedodd Stephen Thomas ei fod yn cefnogi'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Oxfam Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru. Wedyn rhoddodd ddisgrifiad byr o waith y Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd, a oedd yn cynnwys:

- Gweithio gydag ysgolion a cholegau yng Nghymru, i hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a dealltwriaeth o'r byd modern;
- Trefnu cynadleddau a chyfarfodydd ar gyfer pobl ifanc; a
- Cynhyrchu deunyddiau cwricwlwm, gyda chymorth y Cynulliad, e.e. pecyn dinasyddiaeth i Gyfnodau Allweddol 3/4

1.4 Gwnaeth Stephen Thomas y pwyntiau canlynol:

- Dylai dinasyddiaeth fyd-eang fod yn fater trawsbynciol yn y cwricwlwm ac nid yn rhywbeth a gyfyngir i'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol;
- Dylid cynnwys dinasyddiaeth fyd-eang mewn hyfforddiant athrawon;
- Yr oedd pobl ifac yn ymddiddori fwyfwy yn yr amgylchedd a dylid cysylltu syniadau am ddatblygu cynaliadwy â Chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 24) a'u hawl i fyw mewn amgylchedd glân;
- Yr oedd y dull o gyflwyno pwnc dinasyddiaeth fyd-eang mewn cyd-destun rhyngwladol yn holl bwysig; a
- Dylid darparu amrywiaeth eang o ddeunyddiau ar y pwnc hwn yn y Gymraeg.

1.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau a gwahododd y Gweinidog i wneud sylwadau ar rai o'r materion a godwyd. Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'n agos gydag Oxfam Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru a'r Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd Cymru i ddatblygu syniadau ar ddatblygu cynaliadwy;
- Yr oedd addysg datblygu ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy wedi dod at ei gilydd fel pynciau. Yr oedd y Gweinidog wedi arwyddo ymrwymiad gyda'r Adran Datblygu Rhyngwladol ar gyfer cydweithrediad pellach yn y maes hwn;
- Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo fel cyfangorff i ddatblygu cynaliadwy;
- Yr oedd y Gweinidog wedi sefydlu panel ymgynghorol Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy, a oedd yn gweithio ochr yn ochr â'r gweithgor dinasyddiaeth fyd-eang. Yr oedd y panel yn ceisio diffinio cysyniad datblygu cynaliadwy a byddai hefyd yn ystyried sut y gellid cynnwys Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy yn y cwricwlwm ac a ddylai Addysg Bersonol a Chymdeithasol ddod yn statudol;

- Byddai'r adolygiad nesaf o'r cwricwlwm yn cynnig cyfle i asesu sut y gellid cynnwys Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm;
- Yr oedd y panel ymgynghorol Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy yn trefnu cynhadledd yn Ebrill er mwyn paratoi ar gyfer y gynhadledd ryngwladol a oedd i'w chynnal yn Johannesburg yn yr haf;
- Yr oedd wyth ysgol yng Nghymru wedi ymgeisio yn y gystadleuaeth 'Ein Cymru Ni' – a noddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol – i gynllunio prosiectau datblygu cynaliadwy ar lefel leol. Byddai'r ysgol arobryn yn derbyn £15,000 a byddai'r disgyblion yn mynd gyda Phrif Weinidog Cymru i'r gynhadledd ryngwladol.

1.6 Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- **Hyfforddiant athrawon** – teimlwyd bod ar athrawon newydd a phrofiadol angen amser i gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth o ddatblygu cynaliadwy er mwyn dysgu'r pwnc. Yr oedd arnynt angen cymorth hefyd gan ymgynghorwyr arbenigol allanol. Yr oedd enghreifftiau o arfer da mewn sefydliadau addysgol ym Mangor ac Abertawe.
- **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon** – teimlai rhai o'r Aelodau fod angen i ddatblygu cynaliadwy hydreiddio hyfforddiant cychwynnol athrawon. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Estyn yn adolygu gwaith ar hyfforddiant cychwynnol athrawon ac y byddai'n cyhoeddi adroddiad cyn hir.
- **Pwnc ar wahân** – awgrymodd rhai Aelodau y dylid dysgu datblygu cynaliadwy fel pwnc ar wahân, yn hytrach na'i gynnwys yn y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Fodd bynnag, yr oedd y cyflwynwyr yn teimlo y gallai hynny arwain at roi'r pwnc o'r neilltu a'i esgeuluso wedyn.
- **Deddfwriaeth** – gofynnwyd i'r cyflwynwyr a oeddent o'r farn y byddai deddfwriaeth yn fuddiol; er enghraifft, wrth fynnu bod ysgolion a cholegau yn prynu cynnyrch lleol. Nid oedd consensws ar y mater hwn.
- **Cynnydd** – yr oedd yr Aelodau yn ymddiddori yn y cynnydd yn y maes hwn, ers cychwyn y Cynulliad Cenedlaethol. Teimlai'r cyflwynwyr y bu gormod o ddibyniaeth ar unigolion i hyrwyddo'r mater hwn. Awgrymwyd y dylai ysgolion ddatblygu eu datganiad gweledigaeth eu hunain ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Teimlai'r cyflwynwyr fod cynnydd araf ond sylweddol wedi bod dros y ddwy flynedd diwethaf.
- **Dylanwad disgyblion** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut yr oedd ysgolion yn ymateb i geisiadau gan ddisgyblion i roi newidiadau ar waith yn eu hysgolion. Holodd yr Aelodau a oedd modd asesu dylanwad disgyblion wrth beri newid. Teimlai'r cyflwynwyr y dylid rhoi mwy o sylw ac adnoddau i'r mater hwn. Yr oedd y cyflwynwyr o'r farn y byddai cymryd awgrymiadau disgyblion o ddifrif a'u gweithredu yn eu cymell i ddatblygu ac ymateb i syniadau ar ddatblygu cynaliadwy.
- **Y Wlad sy'n Dysgu** – gofynnodd yr Aelodau a oedd y cyrff a oedd wedi eu cynrychioli yn y cyfarfod wedi ymateb i ddogfen ymgynghorol y Gweinidog *Y Wlad sy'n Dysgu* mewn perthynas â'r angen i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ymhellach. Nid oeddent wedi ymateb eto ond yr oeddent yn bwriadu gwneud. Dywedodd y cyflwynwyr y byddai eu hymatebion wedi eu goleuo gan y drafodaeth fuddiol yn y cyfarfod hwn.
- **Cwricwlwm** – nododd y Cadeirydd y byddai'r Mesur Addysg, a oedd yn cael ei ystyried gan y Senedd ar y pryd, yn rhoi hawl i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd gan y cyflwynwyr unrhyw syniadau ar gyfer datblygiad posibl y cwricwlwm. Cytunai'r holl gyflwynwyr y byddai newid y cwricwlwm yn sylweddol yn gofyn cyllid mwy o lawer. Barnwyd y gallai'r Fagloriaeth Gymreig beri newid ei hun. Atebodd y Gweinidog fod y Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno gweithio gydag athrawon wrth ddatblygu cwricwlwm newydd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gofyn cyn hir i ACCAC ddechrau'r adolygiad nesaf o'r cwricwlwm cenedlaethol.
- **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a fu

ysgolion yn defnyddio TGCh i rannu syniadau ac arfer da gydag ysgolion mewn gwledydd eraill. Cafodd yr Aelodau wybod bod sawl prosiect o'r fath ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd; er enghraifft, prosiect a oedd yn cysylltu ysgolion yng Nghymru â rhai yn Nenmarc a Nicaragua.

- **Datblygu Economaidd** – nododd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor wedi ymdrin eto â mater cysylltu addysg a hyfforddiant â datblygu economaidd a sut y gallai datblygu cynaliadwy gyfrannu at ddatblygu cymdeithasol-economaidd yng Nghymru. Hefyd, nid oedd y Pwyllgor wedi edrych ar gyrsiau perthnasol mewn addysg bellach ac uwch a chyngor gyrfaoedd. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor ystyried y themâu hyn yn y dyfodol.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg – Tystiolaeth Lafar – Pobl Ifanc o Ysgolion Lleol**

***Papurau: ELL 02-02(p.3) a (p.4)***

2.1 Rhoddodd pobl ifanc o ysgolion lleol gyflwyniadau byr i egluro manylion am eu cefndir ieithyddol a'u cefndir ysgol. Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau i'r disgyblion ynghylch eu profiadau.

**Ysgol cyfrwng Saesneg** – yr oedd un disgybl yn dilyn canran fach o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a gofynnodd y Pwyllgor i'r disgybl wneud sylw am yr hyn yr oedd hynny'n ei olygu. Eglurodd y disgybl fod astudio rhan o'r cwricwlwm yn y Gymraeg yn brofiad pleserus. Y rheswm dros ei ddymuniad i wneud hynny oedd bod rhieni'r disgybl wedi colli eu gallu i siarad Cymraeg pan fuont yn derbyn eu haddysg mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac nid oedd y disgybl yn dymuno i hynny ddigwydd eto. Yr oedd un disgybl arall yn y dosbarth; weithiau byddai disgyblion eraill yn cyfeirio at y ffaith bod y Gymraeg yn cael ei siarad.

**Modelau ysgolion** – yr oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod a oedd y disgyblion yn credu ei bod yn well cael ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar wahân neu ysgolion sengl, dwyieithog gyda gwahanol ffrydiau. Credai un disgybl y byddai ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar wahân yn fwy effeithiol gan fod y Saesneg yn dueddol i orlywodraethu, gan fod mwy o bobl yng Nghymru yn siarad Saesneg nag a oedd yn siarad Cymraeg. Teimlwyd y byddai rhannu pobl, yn ôl yr iaith a siaradent, mewn un ysgol yn gyfeiriad negyddol. Teimlai disgybl arall ei bod yn well cael ysgolion dwyieithog, lle y gallai'r ddwy iaith gydfodoli. Ar sail profiad y disgybl ei hun, gallai ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar wahân achosi rhaniad a gallent feithrin agwedd negyddol.

**Bywyd cymdeithasol/diwylliannol** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd y disgyblion yn credu bod bywyd cymdeithasol/diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu neu a oedd wedi helpu disgyblion i ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Yr oedd un disgybl yn derbyn ei addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, lle y disgwylid i'r Gymraeg gael ei siarad bob amser ar dir yr ysgol. Teimlwyd yn gryf fod hyn wedi bod o gryn gymorth i wella gafael y disgybl ei hun ar y Gymraeg.

**Cyfle** – gofynnwyd i'r disgyblion roi eu barn ar ddarparu mwy o gyfle gan y Cynulliad i bobl ddysgu/siarad Cymraeg a hefyd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Newidiodd un disgybl y ddadl a gyflwynwyd cyn hynny, a dywedodd y byddai'n well cael ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion eraill lle y defnyddid y Gymraeg a'r Saesneg i ryw raddau i ddysgu'r cwricwlwm. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y model hwn yn adlewyrchu un o'r dulliau a fabwysiadwyd yng Ngwlad y Basgiaid.

**Gweithgareddau ar ôl ysgol** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd digon o gefnogaeth i weithgareddau cymdeithasol ar ôl ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Teimlai'r disgyblion nad oedd llawer o

glybiau ar ôl ysgol ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; byddai'n anodd parhau â gweithgareddau'r Urdd ar ôl ysgol. Dywedodd disgybl arall fod clwb newydd, Clwb y Cymry, wedi ei sefydlu yn ei ysgol; newidiwyd yr enw yn ddiweddar i helpu i ddenu rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. Teimlai un disgybl fod siarad Saesneg yn yr ysgol yn cael ei ystyried yn ffasiynol a bod siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn anffasiynol. Yr oedd yr ysgol wedi ceisio datrys y broblem hon drwy drefnu gweithgareddau drwy'r clwb, fel bowlio deg. Yr oedd disgybl arall yn gysylltiedig â'r clwb Ffermwyr Ifainc a theimlai, os oedd pobl ifanc yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol lle y gellid defnyddio'r Gymraeg, y dylent chwilio amdanynt a'u cefnogi.

**Agweddau** – gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw un o'r disgyblion ysgol wedi profi unrhyw agweddau negyddol at y Gymraeg. Yr oedd peth tystiolaeth o hynny ond ni chanfyddid ei bod yn broblem fawr.

**Agweddau cymdeithasol** – gofynnodd yr Aelodau pa mor bwysig ydoedd gan y disgyblion eu hunain i fynd adref a siarad Cymraeg ac a oedd yn anodd i ddisgyblion gadw cyfeillgarwch cyfoedion nad oeddent yn siarad Cymraeg. Dywedodd rhai o'r disgyblion wrth y Pwyllgor eu bod yn siarad cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg gartref, nid oedd eraill yn siarad llawer o Gymraeg gartref. Yr oedd gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ffrindiau Cymraeg a Saesneg eu hiaith, y tu allan i'r ysgol. Dywedodd un disgybl fod ganddo ffrindiau yn yr ysgol a deimlai'n fwy cartrefol wrth sgwrsio yn y Saesneg. Yr oedd hyn yn anodd weithiau gan fod yr ysgol yn cyfarwyddo'r holl ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser; yr oedd yr ysgol yn ystyried hyn yn fodd i hyrwyddo'r iaith. Teimlai'r rhan fwyaf o'r disgyblion na ddylid cyfarwyddo pobl ifanc i ddefnyddio iaith benodol.

**Continwwm** – gofynnodd y Pwyllgor i'r disgyblion egluro pam yr oeddent wedi dewis dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac a oeddent wedi profi unrhyw anawsterau wrth barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Credai un disgybl fod diffyg dilyniant; er enghraifft, gellid cymryd mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg ar Safon Uwch yn yr ysgol ond ni ellid ei dilyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cwrs addysg uwch. Yr oedd disgybl arall wedi ei gymell i beidio ag astudio cemeg drwy gyfrwng y Gymraeg ar Safon Uwch oherwydd diffyg gwerslyfrau Cymraeg addas yn y pwnc hwn.

**Amlieithrwydd** – teimlwyd yn gryf y dylai Cymru nid yn unig fod yn ddwyieithog ond y dylai fod yn amlieithog. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd y rhai a siaradai Gymraeg a Saesneg yn ei chael yn haws dysgu ieithoedd tramor modern nag yr oedd y rhai a siaradai Saesneg yn unig. Yr oedd un disgybl wedi dysgu Almaeneg a Ffrangeg drwy gyfrwng y Gymraeg ond yr oedd ganddo ddiddordeb cynhenid mewn ieithoedd ac ni chredai fod ei ddwyieithrwydd wedi bod o gymorth. Dywedodd y Cadeirydd y gallai dwyieithrwydd roi'r fantais o gryfhau sensitifrwydd ieithyddol a hybu gallu siaradwyr i ddysgu ieithoedd eraill.

**Addysg bellach ac uwch** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd y disgyblion yn dymuno dilyn addysg bellach/uwch yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, os gallent wneud hynny. Cytunai'r holl ddisgyblion y byddent yn dymuno astudio'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn rhannol drwy gyfrwng y Saesneg ar lefel addysg bellach ac/neu uwch. Un o'r rhesymau a roddwyd oedd y gallai myfyrwyr ddymuno gweithio y tu allan i Gymru. Yr oedd disgybl arall yn bryderus ynghylch y posibiliad na fyddai ansawdd addysgu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg o'r un safon â'r rhai a ddysgid drwy gyfrwng y Saesneg. Yr oedd un disgybl yn dymuno astudio'r Saesneg ar lefel prifysgol ond gallai werthfawrogi y dylid cael dewisiadau i fyfyrwyr gael astudio rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunent. Mynegodd disgybl arall y dymuniad i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mynegodd disgybl arall ymdeimlad cryf o falchder yn y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.

**Eitem Tri: Cofnodion cyfarfod 16 Ionawr**

***Papur: ELL 01-02(mins)***

3.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf. Codwyd un mater:

- Tynnodd Gareth Jones sylw at y ffaith ei fod wedi datgan buddiant fel athro cofrestredig ac nad oedd hyn wedi ei grybwyll yn y cofnodion blaenorol. *Newidiwyd y cofnodion wedyn.*

**Papur i'w nodi:**

**Llythyr cylch gwaith y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes at Estyn**

***Papur: ELL 02-02(p.5)***

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Iau 7 Chwefror 2002, yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd.**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2002**